# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 28 Ionawr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Polisïau'r Llywodraeth (Effaith ar y Gogledd)

**C11 Gareth Jones:** Pa effaith a gafodd gweithredu polisïau eich Llywodraeth ar y Gogledd? (OAQ21943)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dylanwadu'n fawr ar y Gogledd drwy weithredu ei pholisïau.

- Mae myfyrwyr sy'n byw yn y Gogledd yn elwa ar grantiau dysgu'r Cynulliad.
- Adfywir ardaloedd difreintiedig y Gogledd gyda chymorth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Hyd yn hyn, dyrannwyd £5.2 miliwn.
- Mae'r Gogledd yn elwa ar bolisïau a gynlluniwyd i wella iechyd a gwasanaethau'r GIG drwy Gymru gyfan.
- Gwellodd amodau'r farchnad lafur yn fawr yn y Gogledd, cynyddodd y gyfradd gyflogaeth dros 1.5 y cant.
- Ymatebodd busnesau bach a chanolig eu maint drwy'r Gogledd yn wych i grant buddsoddi'r Cynulliad.

### Ynni'r Llanw i Aber Afon Hafren

**C12 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch cynigion adnewyddu ar gyfer ynni'r llanw i aber afon Hafren? (OAQ21944)

**Y Prif Weinidog:** Ni chynhaliais drafodaethau o'r fath.

### 'Cynllun i Gymru 2001'

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynnydd o ran cyflawni'r addewidion a amlinellir yn y ddogfen strategol 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ21948)

**Y Prif Weinidog:** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau cadarn tuag at gyflawni ei hymrwymiadau a nodwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'.

Ers y datblygiadau a nodais yn fy adroddiad Hydref diwethaf, yr ydym wedi:

- parhau â'n rhaglen i foderneiddio llywodraeth leol a Chymunedau yn Gyntaf, y fenter adfywio sy'n seiliedig ar ardaloedd sy'n targedu llawer o gymunedau mwyaf anghenus Cymru; a
- pharhau â'n cryn gynnydd ar gyrraedd targedau'r gwasanaeth iechyd ar gyfer 2003-04 a amlinellwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'. Er enghraifft, disgwyliwn fynd y tu hwnt i'r targed ar gyfer nifer y meddygon a'r nyrsys dan hyfforddiant, a bu inni gwtogi amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau gardiaidd ac orthopedig yn unol â'r targedau a nodwyd.

## Cyfleoedd Cyfartal yng Nghymru

**C14 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y mesurau sydd ar waith i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yng Nghymru? (OAQ21940)

**Y Prif Weinidog:** Ar hyn o bryd, gweithredwn gyfres o fentrau yng Nghymru ar draws yr amrywiaeth lawn o feysydd cydraddoldeb. Cynhwysa'r rhain: seminarau i ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â chael un corff dros gydraddoldeb; cyfarfodydd bord gron y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gydraddoldebau; ymgyrch tâl cyfartal; mentrau allgyrch i wella ein gwaith gyda grwpiau a chymunedau difreintiedig; cyngor rhyng-grefyddol Cymru, seminarau ar wahaniaethu ar sail anabledd a gwaith pellach, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad.

## Hawliau Deddfu Llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol

**C15 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gael hawliau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ21949) [W]

**Y Prif Weinidog:** Sefydlwyd comisiwn Richard er mwyn ystyried hyd a lled pwerau'r Cynulliad, a bydd hyn yn cynnwys ystyried y ddadl dros roi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad. Gofynnwyd i'r comisiwn adrodd yn ôl erbyn diwedd 2003.